LLWYBRAU MYNEDIAD (FfCCh)

MANYLEB 2011 Ymlaen

Cymwysterau:

Byw'n Annibynnol
Byw'n Iach a Ffitrwydd
Cymraeg (Iaith Gyntaf ac Ail Iaith)
Cynnydd Personol
Datblygiad Personol a Chymdeithasol
Dyniaethau
Gwyddoniaeth Heddiw
Mathemateg
Paratoi i Weithio
Saesneg Ychwanegol
Defnyddwyr TGCh
Y Creadigol, y Cyfryngau a Chelfyddydau Perfformio

© WJEC CBAC Cyf.

Cynnwys

I'w addysgu o 2011
I'w ddyfarnu o 2012

		Tudalen
1.	Cyflwyniad a Rhesymeg	4
2.	Gorolwg o'r Cymwysterau	5
3.	Cymwysterau sydd ar gael	6
4.	Unedau sydd ar gael	8
5.	Rheolau Cyfuno	9
6.	Dulliau Cofrestru	12
7.	Asesu	13
8.	Safoni Mewnol	14
9.	Safoni Allanol	15
10.	Gwirio Allanol	18
11.	Dyfarnu ac Adrodd	19
12.	Mynediad ac Ystyriaeth Arbennig	20
13.	Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau	21

Atodiad 1 (Enghraifft o Agenda Safoni Mewnol)
Atodiad 2 (Taflen Ddilysu Ymgeisydd)
Atodiad 3 (Enghraifft o Ffurflen Cofnod Asesu)
Atodiad 4 (Ffurflen Adroddiad y Safonwr)
Atodiad 5 Rhestr o'r Cymwysterau ac Unedau

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

1 CYFLWYNIAD A RHESYMEG

Mae cyfres o Dystysgrifau, Dyfarniadau a Diplomâu Lefel Mynediad CBAC wedi ei darparu o fewn y Fframwaith Credydau a Chymwysterau (FfGCh), sydd wedi ei gynllunio i ddarparu fframwaith cymwysterau cynhwysol a hyblyg wedi ei reoleiddio i ddysgwyr, darparwyr dysgu a chyflogwyr sy'n cydnabod yr amrediad ehangaf posibl o gyflawniadau dysgu sicr eu hansawdd. Yn gyson ag egwyddorion y FfGCh, mae'r cymwysterau Lefel Mynediad yma â'r nod o fod yn:

- gynhwysol – yn cydnabod cyflawniad pob dysgwr Lefel Mynediad drwy drefn safonol o ddyfarnu credyd

- ymatebol – yn galluogi unigolion a chanolfannau i sefydlu llwybrau cyflawniad sy'n addas i'w hanghenion ac sy'n hwyluso dilyniant

- hygyrch – wedi eu seilio ar nodweddion cynllunio clir sy'n hawdd i bob defnyddiwr eu deall

Yn benodol, o'u cymharu â'r cymwysterau yn seiliedig ar bynciau a'u rhagflaenodd, mae'r cymwysterau'n cefnogi dysgu personol drwy alluogi canolfannau i:

- gyfuno unedau i greu rhaglenni astudio sy'n addas ar gyfer anghenion unigol y dysgwr;
- dod o hyd i dystiolaeth asesu sydd ei hangen o raglenni gwaith cyfannol ar adegau penodol yn ystod y cwrs;
- cydnabod cwblhau pob uned yn ogystal â'r cymhwyster yn ei gyfanrwydd.

Mae'r tabl ar y dudalen gyferbyn yn rhoi gorolwg o'r unedau a'r cymwysterau sy'n cael eu darparu. Mae hi'n bwysig nodi'r pwyntiau canlynol:

- Mae penawdau pynciau (fel *Hanes* neu *Lletygarwch ac Arlwyo*) wedi eu defnyddio er mwyn rhoi canllaw cyffredinol ar sut mae'r unedau'n gallu cyfrannu tuag at gymwysterau. Fodd bynnag, mae'r rheolau cyfuno wedi eu seilio'n unig ar unedau unigol: dewis y ganolfan yw sut mae'r rhain yn cael eu rhoi at ei gilydd i greu cyrsiau ystyrlon.

- Gall unedau mewn rhai meysydd astudio gyfrannu at fwy nag un teitl tystysgrif.

- Yn achos y pynciau craidd Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a TGCh, mae'r cymwysterau sgiliau (Sgiliau Gweithredol yn Lloegr, Sgiliau Hanfodol yng Nghymru) yn cael eu hategu gydag unedau ychwanegol (sy'n arwain at Ddyfarniad neu Dystysgrif) sy'n gallu cael eu haddysgu fel rhan o raglen ddysgu integredig yn y maes pwnc.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

2 *LLWYBRAU MYNEDIAD CBAC – GOROLWG O GYMWYSTERAU*

D.S. 1. Mae penawdau wedi'u tanlinellu'n cyfeirio at deitlau tystysgrifau.
2. Mae'r meysydd pwnc wedi'u rhestru isod yn cyfeirio'n gyffredinol at gynnwys yr unedau sydd ar gael (gweler yr atodiad ar wahân am fwy o fanylion).

Y Creadigol, y Cyfryngau a Chelfyddydau Perfformio Cerddoriaeth Drama Y Cyfryngau Celf a Dylunio D&Th	**Sgiliau – Pynciau Craidd** **Saesneg Ychwanegol**	**Byw'n Annibynnol** Gofal Plant Lletygarwch ac Arlwyo Datblygiad Personol a Chymdeithasol Gwallt a Harddwch Gofalu am Blanhigion ac Anifeiliaid
Gwyddoniaeth Heddiw Gwyddoniaeth Gofalu am Blanhigion ac Anifeiliaid	***Cymraeg*** 1. Cymraeg 2. Cymraeg (Ail Iaith)	**Paratoi i Weithio** Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lletygarwch ac Arlwyo D&Th Astudiaethau Cerbydau Modur Gwallt a Harddwch Datblygiad Personol a Chymdeithasol Gofalu am Blanhigion ac Anifeiliaid
Dyniaethau Hanes Daearyddiaeth/Hamdden a Thwristiaeth Astudiaethau Crefyddol Ffrangeg	***Mathemateg***	**Cynnydd Personol (Mynediad 1)**
Byw'n Iach a Ffitrwydd AG	***TGCh*** 1. Defnyddwyr TG 2. AmbITion (CTG)	**Datblygiad Personol a Chymdeithasol**

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

3 CYMWYSTERAU SYDD AR GAEL

Mae pob uned a chymhwyster o fewn FfCCh wedi eu diffinio yn nhermau:

- lefel (pa mor anodd neu faint o sialens ydynt i'r dysgwr) a
- credyd (faint o waith y mae ei angen) – 1 credyd = 10 awr o amser dysgu i'r dysgwr ar gyfartaledd

Mae unedau Llwybrau Mynediad CBAC ar gael ar bedair lefel:

Mynediad 1
Mynediad 2
Mynediad 3
Lefel 1

sy'n arwain at gymhwyster (mewn tri maint):

Dyfarniad (8 credyd neu fwy)
Tystysgrif (13 credyd neu fwy)
Diploma (37 credyd neu fwy)

Mae'r teitlau canlynol ar gael:

Mynediad 1

Teitl	Cymwysterau	Codau Cofrestru
Cynnydd Personol	Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma	6000/A1, C1, D1
Defnyddwyr TGCh	Dyfarniad, Tystysgrif	6010 A1/C1

Mynediad 2

Teitl	Cymwysterau	Codau Cofrestru
Datblygiad Personol a Chymdeithasol	Dyfarniad, Tystysgrif	6001 A2/C2
Byw'n Annibynnol	Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma	6002 A2/C2/D2
Paratoi i Weithio	Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma	6003 A2/C2/D2
Gwyddoniaeth Heddiw	Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma	6004 A2/C2/D2
Dyniaethau	Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma	6005 A2/C2/D2
Y Creadigol, y Cyfryngau a Chelfyddydau Perfformio	Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma	6006 A2/C2/D2
Saesneg Ychwanegol	Dyfarniad, Tystysgrif	6007 A2/C2
Cymraeg	Dyfarniad, Tystysgrif	6008 A2/C2
Mathemateg	Dyfarniad, Tystysgrif	6009 A2/C2
Defnyddwyr TGCh	Dyfarniad, Tystysgrif	6010 A2/C2
Byw'n Iach a Ffitrwydd	Dyfarniad, Tystysgrif	6011 A2/C2
Cymraeg (Ail Iaith)	Dyfarniad, Tystysgrif	6012 A2/C2

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Mynediad 3

Teitl	Cymwysterau	Codau Cofrestru
Datblygiad Personol a Chymdeithasol **	Dyfarniad, Tystysgrif	6001 A3/C3
Byw'n Annibynnol	Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma	6002 A3/C3/D3
Paratoi i Weithio	Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma	6003 A3/C3/D3
Gwyddoniaeth Heddiw *	Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma	6004 A3/C3/D3
Dyniaethau	Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma	6005 A3/C3/D3
Y Creadigol, y Cyfryngau a Chelfyddydau Perfformio	Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma	6006 A3/C3/D3
Saesneg Ychwanegol	Dyfarniad, Tystysgrif	6007 A3/C3
Cymraeg	Dyfarniad, Tystysgrif	6008 A3/C3
Mathemateg	Dyfarniad, Tystysgrif	6009 A3/C3
Defnyddwyr TGCh	Dyfarniad, Tystysgrif	6010 A3/C3
Byw'n Iach a Ffitrwydd	Dyfarniad, Tystysgrif	6011 A3/C3
Cymraeg (Ail Iaith)	Dyfarniad, Tystysgrif	6012 A3/C3

Lefel 1

Teitl	Cymwysterau	Codau Cofrestru
Datblygiad Personol a Chymdeithasol **	Dyfarniad, Tystysgrif	6001 A4/C4
Byw'n Annibynnol **	Dyfarniad, Tystysgrif	6002 A4/C4
Paratoi i Weithio **	Dyfarniad, Tystysgrif	6003 A4/C4
Defnyddwyr TGCh	Dyfarniad, Tystysgrif	6010 A4/C4
Gwyddoniaeth Gymhwysol *	Tystysgrif	6500 C1
Gwyddoniaeth i Weithio *	Tystysgrif	6501 C1

* Mae'n bosibl defnyddio Unedau Llwybrau Mynediad Gwyddoniaeth Heddiw tuag at y Llwybrau Lefel 1 Gwyddoniaeth i Weithio neu Gwyddoniaeth Gymhwysol (Gweler y Fanyleb Llwybrau Gwyddoniaeth Gymhwysol ar wefan CBAC).

** Ar gael i'w gyfnewid fel Cymhwyster o'r Haf 2013.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

4 UNEDAU AR GAEL

Mae rhestr o'r cymwysterau y mae'r unedau'n cyfrannu atynt i'w gweld yn Atodiad 5.

- Cod yr uned a'r teitl
- Lefel(au) darparu'r uned – Mynediad 1 (E1), Mynediad 2 (E2), Mynediad 3 (E3) a/neu Lefel 1 (L1)
- Gwerth credyd
- Y cymhwyster y gall yr uned gyfrannu ato

  - Byw'n Iach a Ffitrwydd
  - Byw'n Annibynnol
  - Cymraeg
  - Cymraeg (Ail Iaith)
  - Cynnydd Personol
  - Datblygiad Personol a Chymdeithasol
  - Dyniaethau
  - Gwyddoniaeth Heddiw
  - Mathemateg
  - Paratoi i Weithio
  - Saesneg Ychwanegol
  - Defnyddwyr TGCh
  - Y Creadigol, Y Cyfryngau a Chelfyddydau Perfformio

D.S. Bydd rhestr yr unedau sydd ar gael yn parhau i gael ei diweddaru; i weld y rhestr ddiweddaraf a manylion yr unedau unigol dylech gyfeirio at: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Cyf.

5 *RHEOLAU CYFUNO*

Ardystiad – Unedau opsiynol

O fewn pob maes ardystio sydd wedi ei nodi uchod mae pob uned yn 'opsiynol' a'r unig ofyniad yw cwblhau unedau sy'n ddigonol o ran gwerth i ennill cymhwyster Dyfarniad (8 credyd neu fwy), Tystysgrif (13 credyd neu fwy) neu Ddiploma (37 credyd neu fwy).

Er enghraifft, gallai unedau *Byw'n Iach* (2 gredyd), *Gwneud y Gorau o Amser Hamdden* (2 gredyd), *Rheoli eich Arian eich Hun* (2 gredyd) a *Gweithio fel rhan o Grŵp* (2 gredyd) arwain at Ddyfarniad mewn *Datblygiad Personol a Chymdeithasol*. Gallai cyflawni unedau ychwanegol fel *Ymwybyddiaeth am yr Amgylchedd* (2 gredyd), *Hawliau a Chyfrifoldebau'r Unigolyn* (1 credyd) ac *Ymwybyddiaeth o Fagu Plant* (2 gredyd) arwain at Dystysgrif mewn *Datblygiad Personol a Chymdeithasol*.

Ardystiad - Lefel

Yn unol â rheoliadau FfCCh, mae Llwybrau Mynediad yn caniatáu i beth credyd ddod o unedau a gafodd eu cyflawni ar lefel is na'r cymhwyster ei hun. Dyma'r lwfansau:

Dyfarniad (hyd at 12 credyd): rhaid i 8 credyd, o leiaf, ddod o unedau ar lefel y cymhwyster neu uwchben.

Cymhwyster	Credydau a Enillwyd	Lleiafswm credydau sydd eu hangen ar lefel y cymhwyster neu uwchben
Dyfarniad	8	5
	9	5
	10	6
	11	7
	12	7

© WJEC CBAC Cyf.

Tystysgrif (13 credyd neu fwy): rhaid i 8 credyd, o leiaf, ddod o unedau ar lefel y cymhwyster neu uwchben.

Cymhwyster	Credydau a Enillwyd	Lleiafswm credydau sydd eu hangen ar lefel y cymhwyster neu uwchben
Tystysgrif	13	8
	14	8
	15	8
	16	9
	17	9
	18	10
	19	10
	20	11
	21	11
	22	12
	23	12
	24	13
	25	13
	26	14
	27	14
	28	15
	29	15
	30	16
	31	16
	32	17
	33	17
	34	18
	35	18
	36	19

Diploma (37 credyd neu fwy): rhaid i 19 credyd, o leiaf, ddod o unedau ar lefel y cymhwyster neu uwchben.

Cymhwyster	Credydau a Enillwyd	Lleiafswm credydau sydd eu hangen ar lefel y cymhwyster neu uwchben
Diploma	37	19
	38	20
	39	20
	40	21
	41	21
	42	22
	43	22
	44	23
	45	23
	46	24
	47	24
	48	25
	49	26
	50+	O leiaf 51%

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Ardystiad – Ailsefyll

Gall unedau sydd wedi eu cyflawni gael eu casglu at ei gilydd i'w defnyddio at gymhwyster mwy. Fodd bynnag, gellir ond defnyddio unedau os ydynt wedi'u cynnwys yn y cymhwyster.

Er enghraifft, ar ôl ennill 8 credyd at Ddyfarniad *Byw'n Annibynnol* a chwblhau unedau digonol pellach wedi hynny, gall ymgeisydd gynnwys credyd y Dyfarniad i'w roi tuag at Dystysgrif *Byw'n Annibynnol*.

Er enghraifft, mae'n bosibl ailddefnyddio credyd Mynediad 3 *Cyflwyniad i Ofalu am Anifeiliaid* mewn Dyfarniad *Paratoi i Weithio* ar gyfer Tystysgrif *Gwyddoniaeth Heddiw*.

6 *DULLIAU COFRESTRU*

Bydd Llwybrau Mynediad ar gael i'w hardystio ar ôl y gyfres safoni yn Ionawr a Mehefin gan ddechrau ym Mehefin 2011 (unedau i'w hardystio mewn *Cynnydd Personol*, *Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Paratoi i Weithio* a *Byw'n Annibynnol*) a Mehefin 2012 (unedau i'w hardystio mewn *Gwyddoniaeth Heddiw*, *Dyniaethau, Y Creadigol, Y Cyfryngau a Chelfyddydau Perfformio, Saesneg Ychwanegol, Cymraeg, Mathemateg a TGCh*).*

Rhaid cofrestru am gyfres Ionawr yn ddim hwyrach na 21 Hydref.
Rhaid cofrestru am gyfres Mehefin yn ddim hwyrach na 21 Mawrth.

* Bydd Llwybrau Mynediad yn cael eu dyfarnu a'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ym mis Mawrth a Gorffennaf bob blwyddyn.

Cofrestru am Unedau

Rhaid cofrestru am unedau unigol drwy gyflwyno cod perthnasol am yr uned a'r opsiwn . Y codau opsiwn ar gyfer Mynediad 1, Mynediad 2 a Mynediad 3 yw E1, E2 ac E3 yn y drefn honno a chod opsiwn Lefel 1 yw L1.

Er enghraifft, y cod cofrestru am uned *Cynnal a Chadw Gwallt Iach* Mynediad 2 yw 6159/E2; y cod cofrestru am uned *Cynnal a Chadw Gwallt Iach* Mynediad 3 yw 6159/E3.

Cofrestru Cymwysterau

Rhaid cofrestru i gyfanredu (cyfnewid) am gymhwyster drwy gyflwyno'r cod cymhwyster perthnasol a chod yr opsiwn. Mae codau'r opsiynau'n nodi maint y cymhwyster (Dyfarniad = A, Tystysgrif = C, Diploma = D) a'i lefel.

Er enghraifft, y cod cyfnewid am **Ddyfarniad Mynediad 2** *Datblygiad Personol a Chymdeithasol* yw 6001/A2; y cod cyfnewid am **Dystysgrif Mynediad 3** *Datblygiad Personol a Chymdeithasol* yw 6001/C3.

D.S. Nid yw cyfanredu unedau'n digwydd yn awtomatig: mae'n rhaid cofrestru'r cod cyfnewid perthnasol er mwyn i hyn ddigwydd. Bydd y cofrestru yma fel arfer yn digwydd ar yr un pryd ag y mae unedau digonol yn cael eu cwblhau er mwyn i gymhwyster gael ei ddyfarnu, ond gallai ddigwydd mewn cyfres ddilynol.

7 ASESU

Mae pob uned Llwybrau Mynediad yn cael eu hasesu'n fewnol a'u safoni'n allanol.

Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol wrth asesu pob uned:

- rhaid cwrdd â phob un o'r meini prawf er mwyn i ganlyniadau dysgu pob uned gael eu cyflawni
- rhaid cwrdd â'r meini prawf yn llawn ar bob lefel am unedau Mynediad 2 a Mynediad 3
- mae credyd yn cael ei roi am yr uned yn ei chyfanrwydd
- gall tystiolaeth o gwrdd â meini prawf asesu fod yn berthnasol i feini prawf mwy nag un uned, ond rhaid i bob uned gael ei hasesu'n annibynnol yn ôl ei meini prawf
- gall tasgau gael eu dewis o enghreifftiau y mae CBAC yn eu rhoi (gweler manylion unedau) neu y mae'r ganolfan yn eu gosod.

Aseswyr

Rhaid i asesu gael ei gyflawni gan *Aseswr* sydd wedi'i ddynodi gan y ganolfan, â'r safon angenrheidiol o arbenigedd i asesu gwaith yr ymgeisydd o fewn uned benodol.

Mae'r Aseswr yn gyfrifol am sicrhau:

- bod meini prawf yr uned wedi eu cymhwyso
- bod y gwaith sydd wedi ei gyflwyno'n ddilys
- bod y datganiadau tyst yn ddilys
- bod y penderfyniadau asesu wedi eu cofnodi'n gywir

Dylai tystiolaeth hefyd gael ei *asesu'n ffurfiannol* yn rheolaidd er mwyn:

- sicrhau bod yr ymgeisydd yn ymwneud â'i ddysgu a'i asesu ei hun
- dilyn cynnydd
- canfod a oes angen cyfleoedd dysgu ychwanegol
- cadarnhau bod y dystiolaeth yn ddigonol.

Datganiadau Tyst

Lle y bo'n briodol mae'n bosibl defnyddio datganiadau tyst i gefnogi gwaith arall a gyflwynir gan yr ymgeisydd. Dylai datganiad tyst gynnwys:

- enw'r ymgeisydd
- dyddiad tystio i weithgaredd/gweithred
- manylion y cyd-destun a'r gweithgaredd
- enw, llofnod a manylion cyswllt y tyst
- disgrifiad clir o'r hyn a wnaeth yr ymgeisydd, neu'r weithred a gyflawnwyd.

Mae Aseswr yr ymgeisydd yn gyfrifol am farnu dilysrwydd datganiad y tyst.

Mae ffurflen *datganiad tyst* CBAC ar gael ar wefan CBAC.
Neu fel arall, gall canolfannau ddefnyddio eu ffurflen eu hunain os ydynt *yn addas ac at y pwrpas*.

© WJEC CBAC Cyf.

8 *SAFONI MEWNOL*

Dyma'r broses er mwyn i ganolfannau sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael eu dyfarnu i'r un safon gan wahanol aseswyr, grwpiau dysgu ac o flwyddyn i flwyddyn.

Lle ceir mwy nag un Aseswr, rhaid i'r ganolfan benodi **Dilysydd Mewnol**.
Rôl y Dilysydd Mewnol yw:

- gwirio bod pob asesiad/tasg yn ymdrin â'r meini prawf asesu a chanlyniadau dysgu'r uned/cymhwyster
- lle mae Aseswyr wedi addasu tasgau CBAC, sicrhau bod ymdriniaeth â'r meini prawf asesu ac nad oes gofynion ychwanegol i'r ymgeiswyr neu ofynion sy'n rhoi grŵp penodol o ymgeiswyr o dan anfantais
- sicrhau bod gan bob Aseswr gopi o'r ffurflenni asesu a deunydd enghreifftiol y mae CBAC wedi'u darparu
- samplu dyfarniad Aseswr ar adegau priodol i sicrhau bod meini prawf asesu wedi eu cymhwyso'n gywir a chyson
- cydlynu cyfarfodydd Aseswyr, gan gynnwys trefniadau i *safoni* eu dyfarniad
- rhoi a chofnodi adborth i Aseswyr
- cadw cofnod o waith/tystiolaeth sy'n cael ei samplu, a'r canlyniadau.

Nid yw CBAC yn mynnu bod canran penodol o waith ymgeisydd yn cael ei samplu i'w safoni'n fewnol am y bydd hyn yn amrywio yn ôl amgylchiadau pob canolfan. Fodd bynnag, rhaid i bob canolfan sefydlu ei strategaeth samplu ei hun a fydd yn caniatáu i'r Dilysydd Mewnol fod yn hyderus bod gwaith yr ymgeiswyr sydd heb eu samplu hefyd yn cwrdd â'r meini prawf asesu a'r anghenion cofnodi.

I bob Aseswr rhaid i'r sampl allu cadarnhau bod:

- *cofnodion asesu* a *datganiadau tyst* wedi eu cwblhau'n gywir
- bod ymgeiswyr yn dilysu eu gwaith.

Efallai y bydd canolfannau eisiau ychwanegu meini prawf samplu ychwanegol, fel cynyddu maint y sampl lle ceir Aseswyr newydd neu gymharol ddibrofiad yn asesu gwaith/tystiolaeth.

Dylid cadw cofnod o bob achlysur y mae dyfarniad Aseswr yn cael ei samplu, ynghyd ag unrhyw adborth. Efallai y bydd angen i'r adborth gynnwys pwyntiau gweithredu lle mae Dilysydd Mewnol yn canfod anghysonderau wrth gymhwyso meini prawf asesu neu ddiffyg wrth gofnodi penderfyniadau asesu. Dylai'r Dilysydd Mewnol fonitro unrhyw bwyntiau gweithredu i sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith gan yr Aseswr.

Mae enghraifft o agenda cyfarfod safoni mewnol wedi ei roi fel Atodiad 1.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

9 SAFONI ALLANOL

Mae cysondeb asesiadau ar draws y canolfannau'n cael ei wirio drwy safoni sampl o waith yn allanol.

Cam 1

Bydd hyn fel arfer yn cael ei wneud drwy **safoni drwy'r post**, pan fydd maint sampl yn dilyn y fformiwla isod. Rhaid i'r sampl gwmpasu pob uned a aseswyd ar bob lefel.

Cyfanswm nifer yr ymgeiswyr	*Gwaith i'w gyflwyno (Rhifau'n cyfeirio at drefn yr wyddor)*
1 - 10	Sampl o 3 i bob uned ar bob lefel i ddangos tystiolaeth o bob uned yr ymdriniwyd â hi
11 - 20	Sampl o 5 i bob uned ar bob lefel i ddangos tystiolaeth o bob uned yr ymdriniwyd â hi
21+	Sampl o 10 i bob uned ar bob lefel i ddangos tystiolaeth o bob uned yr ymdriniwyd â hi

Gall tystiolaeth o gwrdd â meini prawf asesu fod yn berthnasol i feini prawf mwy nag un uned, ond rhaid asesu pob uned yn annibynnol. Lle bo hynny'n briodol dylid dangos i'r safonwr allanol ar daflen(ni) clawr Cofnod Asesu (gweler Atodiad 3 fel enghraifft) yr unedau unigol ymhle mae'r dystiolaeth o gyflawni meini prawf asesu i'w chael. Os yw'r safonwr yn cytuno ag asesiadau'r sampl, caiff asesiadau'r ganolfan eu derbyn ac ni chaiff y safoni ei estyn. Os nad yw'r safonwr yn cytuno ag unrhyw asesiadau, yna bydd cam 2 yn dod yn weithredol.

Cam 2

Bydd cais yn cael ei wneud am sampl ychwanegol (yr un maint â'r sampl cyntaf) gan y ganolfan:

Cyfanswm nifer yr ymgeiswyr	*Gwaith i'w gyflwyno (Rhifau'n cyfeirio at drefn yr wyddor)*
1 - 10	Sampl o 3 i bob uned ar bob lefel i ddangos tystiolaeth o bob uned yr ymdriniwyd â hi
11 - 20	Sampl o 5 i bob uned ar bob lefel i ddangos tystiolaeth o bob uned yr ymdriniwyd â hi
21+	Sampl o 10 i bob uned ar bob lefel i ddangos tystiolaeth o bob uned yr ymdriniwyd â hi

Os yw asesiad y ganolfan yn gyson yna ni fydd ailasesu pellach yn digwydd a bydd asesiad y ganolfan yn cael ei dderbyn.

Os oes amheuaeth o hyd am gysondeb y ganolfan, byddai'r gwaith i gyd yn cael ei alw i mewn i'w ailasesu.

Lle y bo'n briodol (e.e. mae tystiolaeth i'w hasesu wedi ei gwneud yn bennaf neu yn llwyr o berfformiad byw neu o arteffactau nad yw'n bosibl sicrhau eu hansawdd drwy safoni drwy'r post) bydd **safonwr yn ymweld** er mwyn asesu'n allanol.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Bydd asesiad y safonwr yn cael ei seilio ar gynlluniau gwaith neu feini prawf asesu i bob uned fel y darparwyd gan CBAC.

Yn ychwanegol at y swyddogaeth o sicrhau bod safonau'n gyson, bydd y safonwyr yn defnyddio'r rhestr wirio ganlynol i sicrhau bod gwaith cwrs wedi ei osod a'i asesu yn unol â chanllawiau CBAC.

(a) ***Gosod Tasg*****.** Lle y bo'n briodol, ydy'r tasgau wedi eu gosod o fewn gofynion y fanyleb?

(b) ***Meini Prawf Asesu.*** Ydyn nhw wedi eu cymhwyso'n gyson?

(c) ***Gweinyddiaeth*****.** A gafodd cyfarwyddiadau gweinyddol a threfniadol CBAC eu dilyn?

(ch) ***Anodi*****.** Ydy gwaith yr ymgeiswyr wedi ei anodi'n gywir?

(d) ***Dilysu*****.** Ydy gwaith yr ymgeiswyr wedi ei ddilysu'n gywir, yn enwedig yn yr achosion lle mae gweithgareddau wedi digwydd y tu allan i'r ganolfan? Os oes manylion wedi eu nodi am unrhyw gymorth a roddwyd i ymgeiswyr arbennig y tu hwnt i'r cymorth a roddwyd i'r grŵp cyfan, ydy natur y cymorth o fewn y ffiniau a nodwyd yn y fanyleb?

(dd) ***Safoni*****.** Ydy safoni yn effeithiol *o fewn* y ganolfan?

Amserlen

Rhaid cyflwyno samplau o waith i'r safonwr a dychwelyd taflenni marciau perthnasol i CBAC erbyn 12 Rhagfyr ar gyfer cyfres Ionawr ac erbyn 4 Mai ar gyfer cyfres Mehefin. Bydd angen i ganolfannau sicrhau bod dyddiadau cyflwyno mewnol ddigon ymlaen llaw er mwyn caniatáu ar gyfer dilysu, asesu a safoni.

Cyflwyno Ffolderi

Gallwch roi cyfarwyddiadau penodol ar gyfer cyflwyno gwaith yng nghanllawiau'r unedau unigol. Os na nodir yn wahanol, dylid nodi'r pwyntiau canlynol:

- Dylai gwaith pob ymgeisydd gael ei gyflwyno mewn ffolder/ffeil A4 gydag **enw a rhif y ganolfan, enw a rhif yr ymgeisydd a theitl(au) yr uned** wedi ei nodi'n glir arno.
- Dylai ffolder pob ymgeisydd gynnwys taflen ddilysu wedi'i harwyddo (gweler Atodiad 2).
- **Ni** ddylid defnyddio ffeil fodrwy (trwchus i'w phostio) na waled blastig (anodd cael at y gwaith).
- Pan fydd gwaith yn cynnwys nifer o aseiniadau, dylai fod gwybodaeth gyfeiriol arnynt i gydfynd â chanlyniadau dysgu/meini prawf asesu.
- Pan fydd tystiolaeth yn cael ei chyflwyno i gwrdd â'r meini prawf mewn mwy nag un uned, dylid nodi gwybodaeth gyfeiriol am hyn ar y taflenni clawr.

Noder: er mwyn arbed arian ac mewn achosion lle mae gwaith ymgeiswyr yn fawr neu'n drwm, argymhellir defnyddio tystiolaeth ffotograffig.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Adborth

Canlyniad y safoni fydd derbyn asesiadau canolfan neu ddarparu arweiniad ar weithredu angenrheidiol cyn ail gyflwyno'r unedau penodedig mewn cyfres arholiadau ddilynol.

Bydd adborth yn cael ei ddarparu drwy adroddiad safonwr i bob teitl tystysgrif, gan ymdrin â'r unedau y cofrestrodd y ganolfan amdanynt. Bydd yr adroddiad yn ymdrin â Gweinyddiaeth, Cynnwys/Tasgau, anodi ac Asesiadau (gweler Atodiad 4).

Bydd adroddiad cyffredinol gan yr Uwch Safonwr ar bob maes ardystio'n cael ei ddarparu ym mhob cyfres a gallwch ei weld ar wefan ddiogel CBAC.

10 GWIRIAD ALLANOL

Bydd asesiadau unedau wedi eu sicrhau o ran ansawdd drwy samplu gwaith fel y nodwyd uchod.

Bydd systemau a threfniadau cyflwyno unedau a chymwysterau FfCCh gan ganolfannau'n cael eu monitro drwy raglen o ymweliadau gan wirwyr allanol. Bydd manylion yn cael eu darparu ar wahân.

11 DYFARNU AC ADRODD

Bydd dyfarnu ac adrodd ar ganlyniadau Llwybrau Mynediad yn digwydd ym Mawrth a Gorffennaf bob blwyddyn, gan gyfeirio at yr amserlen uchod ar gyfer safoni allanol.

Bydd **Datganiad Credyd** yr ymgeisydd, sy'n cael ei ddosbarthu gyda'r canlyniadau, yn gweithredu fel cofnod cronnus o werth credyd a lefel pob uned a gyflawnwyd os ydynt wedi eu cyfnewid am gymhwyster ai peidio.

Bydd **Tystysgrif Cymhwyster** yr ymgeisydd, a fydd yn cael ei dosbarthu'n ddiweddarach, yn cadarnhau teitl, lefel a maint (h.y. Dyfarniad, Tystysgrif neu Ddiploma) cymhwyster (cymwysterau) a gyflawnwyd yn y gyfres honno.

WJEC CBAC Cyf.

12 MYNEDIAD ac YSTYRIAETH ARBENNIG

Mae'r fanyleb hon wedi ei chynllunio i fod o fewn cyrraedd pob ymgeisydd ac i leihau'r angen i wneud newidiadau rhesymol i ymgeiswyr sydd ag anghenion penodol. Disgwylir, fel arfer, bod canolfannau'n darparu'n briodol at alluoedd, diddordebau ac anghenion ymgeiswyr unigol drwy (a) y dewis o unedau a chymwysterau ar gael, a (b) yr hyblygrwydd a gynigir i wahanol ddulliau asesu a mathau o dystiolaeth, er mwyn arddangos bod y meini prawf asesu wedi eu cwrdd. Os oes unrhyw ymholiad am y defnydd o hyblygrwydd sy'n gynhenid yn y fanyleb i gwrdd ag anghenion ymgeiswyr, neu am y defnydd o newidiadau rhesymol, dylai canolfannau gysylltu â CBAC.

Yn eithriadol, os yw canolfan yn dymuno gofyn am ystyriaeth arbennig i ymgeisydd, bydd trefniadau'n dilyn y rhai a amlinellwyd yn Adran Dd, cyhoeddiad y CGC *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig.*

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

13 GWASANAETHAU AR ÔL Y CANLYNIADAU

Os yw canolfan yn dymuno gwneud ymholiad am ganlyniadau'r broses safoni rhaid gwneud hyn yn ffurfiol gan bennaeth y ganolfan gan hysbysu CBAC o fewn 21 o ddiwrnodau i gyhoeddi'r canlyniadau. Bydd y sampl gwaith a gyflwynwyd i'w safoni'n cael ei adolygu gan safonwr nad oedd yn ymwneud â'r safoni gwreiddiol. Bydd y ganolfan yn cael ei hysbysu o'r canlyniad. Os nad yw'r ganolfan yn fodlon â chanlyniadau'r adolygiad, mae darpariaeth ar gyfer apêl gan CBAC.

WJEC CBAC Cyf.

ATODIAD 1

Enghraifft o Agenda Safoni Mewnol

AGENDA

1. Amlinelliad o rôl, cyfrifoldebau a threfniadau gwaith.

2. Sicrhau bod gan bob Aseswr gynlluniau marcio a deunydd enghreifftiol y mae CBAC wedi'u darparu.

3. Rhagweld nifer yr ymgeiswyr
   * ble maen nhw wedi eu lleoli
   * sut bydd eu cynnydd tuag at ardystiad yn cael ei *olrhain*
   * dyddiadau cau asesu mewnol, safoni mewnol
   * trefniadau asesu ffurfiannol ac adborth.

4. Cadarnhau bod Aseswyr yn cymhwyso safonau'n gywir ac yn gyson gan gyfeirio at ddeunydd enghreifftiol CBAC a deunydd *archif* y ganolfan.

5. Trefniadau safoni dyfarniad Aseswyr.

6. Canfod unrhyw anghenion datblygu ar gyfer Aseswyr .

7. Dogfennaeth Asesu
   * cofnodion yr ymgeiswyr eu hunain
   * cofnodion aseswr a chofnodion arsylwi
   * datganiadau tyst.

8. Cydnabod Dysgu Blaenorol
   * casglu ac adolygu tystiolaeth
   * mapio ac asesu
   * materion safoni.

9. Trefniadau Mynediad ac Ystyriaeth Arbennig.

10. Trefniadau safoni allanol CBAC.

© WJEC CBAC Cyf.

ATODIAD 2

LLWYBRAU MYNEDIAD (FfCCh)

TAFLEN DDILYSU YMGEISYDD

Rhaid cynnwys y daflen hon yn ffolder pob ymgeisydd sy'n cael ei g/chyflwyno i'w safoni

TEITL(AU) YR UNED ……..

……..

……..

Enw'r Ganolfan …….....…….....…… Rhif y Ganolfan…….....

Enw'r Ymgeisydd …….....……..…….. Rhif yr Ymgeisydd…….. .....

RHYBUDD I YMGEISWYR
Rhaid i'r gwaith rydych yn ei gyflwyno i'w asesu fod wedi ei wneud gennych chi.

Os ydych yn copïo gan rywun arall, yn caniatáu i ymgeisydd arall gopïo eich gwaith chi, neu os ydych yn twyllo mewn unrhyw ffordd arall, gallwch gael eich diarddel (o leiaf) o'r pwnc dan sylw.

Datganiad yr Ymgeisydd

Rwyf wedi darllen ac wedi deall y **Rhybudd i Ymgeiswyr** (uchod). Rwyf wedi gwneud y gwaith sydd wedi ei atodi heb unrhyw gymorth ar wahân i'r hyn mae'r athro/athrawes wedi ei egluro sy'n dderbyniol o fewn y fanyleb.

Llofnod yr Ymgeisydd: **Dyddiad:**

Datganiad yr Athro/Athrawes

Rwy'n cadarnhau bod gwaith yr ymgeisydd wedi ei gyflawni o dan amodau a nodwyd yn y fanyleb.

Rwyf wedi dilysu gwaith yr ymgeisydd ac rwyf wedi yn fodlon, hyd eithaf fy ngallu, bod y gwaith wedi ei gyflawni gan yr ymgeisydd yn unig.

Llofnod yr Athro/Athrawes: **Dyddiad**:

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

ATODIAD 3

LLWYBRAU MYNEDIAD (FfCCh)

COFNOD ASESU

TEITL A LEFEL YR UNED:

Enw'r Ymgeisydd ..... Rhif yr Ymgeisydd .....

Enw'r Ganolfan ..... Rhif y Ganolfan .....

Meini Prawf Asesu	**Cwrdd â'r M.P.**	**Tystiolaeth (Wedi'i chyfeirio at Waith a Gyflwynwyd)**	**Swyddfa yn Unig**
MP1.1			
MP1.2			
MP2 .1			
MP2.2			

Sylwadau Cyffredinol

.....

.....

.....

.....

Athro/Athrawes: ..... Dyddiad: .....

Safonwr: ..... Dyddiad: .....

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

ATODIAD 4

LLWYBRAU MYNEDIAD (FfCCh)

ADRODDIAD Y SAFONWR

Swyddfa yn Unig	**Do neu Naddo**
Derbyniwyd Asesiadau'r Ganolfan	

Enw'r Ganolfan: **Rhif y Ganolfan:**

Unedau a safonwyd:

Gweinyddiaeth	**✓ neu ✗**
Cyflwynwyd y sampl gwaith ar amser	
Cyflwynwyd y sampl cywir	
Asesiadau terfynol wedi eu cynnwys ar y taflenni clawr	
Holl waith ymgeiswyr wedi ei ddilysu	
Tystiolaeth o gwblhau proses safoni mewnol	
Datganiadau tyst wedi'u cwblhau (lle bo angen)	
Gwaith ymgeiswyr wedi'i gyflwyno'n dda i'w safoni	

Cynnwys/Tasgau ac Anodi	**✓ neu ✗**
Roedd y Cynnwys/Tasgau yn addas ac yn cwrdd â'r meini prawf asesu	
Asesiadau'r ganolfan wedi eu cadarnhau â thystiolaeth/anodi priodol	

Asesiadau

Dyma'r datganiad sy'n disgrifio canlyniad y safoni orau:	**(✓)**
Meini prawf asesu wedi eu cwrdd	
Meini prawf asesu heb eu cymhwyso'n gyson	

SYLWADAU'R SAFONWR/CYNGOR:

Safonwr: **Dyddiad:**

© WJEC CBAC Cyf.